



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48217

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad Cymru ar Is-ddeddfwriaeth Caffael Cyhoeddus: Rhan 1 a Rhan 2

14 Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr is-ddeddfwriaeth ddrafft i roi'r gyfundrefn gaffael newydd ar waith yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru iddynt. Ymgynghoriad technegol oedd hwn, wedi'i rannu'n ddwy ran.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Diwygio'r Broses Caffael
Y Gyfarwyddiaeth Caffael Masnachol

Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: TimDiwygiorBrosesGaffael@llyw.cymru / ProcurementReformTeam@gov.wales

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolenni at y dogfennau ymgynghori:

[Ymgynghoriad - Rhan 1](#)

[Ymgynghoriad - Rhan 2](#)

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Cyflwyniad a'r broses ymgynghori.....	4
Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru.....	6

Cyflwyniad a'r Broses Ymgynghori

Mae caffael yn un o'r dulliau pwysicaf sydd gennym i gefnogi Cymru sy'n fwy cyfartal, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy llewyrchus, fel yr ydym i gyd am ei gweld. Gall ein helpu i adeiladu'r seilwaith modern sydd ei angen arnom i gyrraedd sero net; gall gefnogi adferiad gwyrdd a gall gyfrannu at ein huchelgais ar y cyd ar gyfer Cymru o Waith Teg.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfleoedd hynny ac i weithio gyda phartneriaid ledled Cymru i ddatblygu dull modern a chynaliadwy o gaffael.

Mae'r Ddeddf Gaffael yn cyflwyno fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoli caffael cyhoeddus. Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023

Bydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn creu set symlach a mwy hyblyg o reolau, gan wneud caffael cyhoeddus yn fwy hygyrch i fusnesau gan gynnwys busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a bydd hefyd yn gwella tryloywder.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau annibynnol cyfatebol i wneud rheoliadau yn y rhan fwyaf o feysydd y Ddeddf Gaffael, felly mae'n bwriadu gosod is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd. Rhannwyd yr ymgynghoriad ar yr is-ddeddfwriaeth hon yn ddwy ran, a oedd yn rhedeg am gyfnod o chwe wythnos yr un. Roedd Rhan 1 yr Ymgynghoriad yn rhedeg rhwng 19/06/2023 a 28/07/2023 a Rhan 2 yr Ymgynghoriad rhwng 17/07/2023 a 25/08/2023.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ddau ymgynghoriad tebyg iawn hefyd ar ei his-ddeddfwriaeth ar yr un pryd â Gweinidogion Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau perthnasol ar yr un pryd i'w gwneud yn haws i randdeiliaid ac ymatebwyr posibl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac am resymau cysondeb.

Ni ofynnwyd am farn ar y polisi ei hun, sydd eisoes wedi'i sefydlu gan y Ddeddf.

Roedd rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch a oedd manylion technegol y drafft yn gywir ac yn gyraeddadwy. Roedd yn canolbwyntio ar feysydd yn y Ddeddf Gaffael lle mae angen defnyddio rhestrau, cyfrifiadau neu ddiffiniadau pellach yn ymarferol.

Roedd ail ran yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf at yr hysbysiadau tryloywder sy'n caniatáu i awdurdodau contractio fwrw ymlaen â phrosesau caffael drwy gydol cylch bywyd y broses caffael mewn modd agored, tryloyw a llawn gwybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos ar ddatblygu'r Ddeddf Gaffael a'u hofferynnau statudol eu hunain i sicrhau bod y deddfwriaethau mor gyson â phosibl ac i leihau unrhyw risg o wahaniaethau posibl. Bydd sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl rhwng y rheolau caffael fel y maent yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau tegwch i brynwyr a chyflenwyr ar ddwy ochr y ffin. O ganlyniad, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r offeryn statudol drafft ar gyfer Cymru ar ôl dadansoddi ymateb Llywodraeth y DU i'w hymgyngoriad, er mwyn sicrhau bod y cysondeb hwn yn parhau ond gan ganiatáu gwahaniaethau datganoledig lle bo angen.

Cafodd Llywodraeth Cymru ddeuddeg ymateb i ran gyntaf yr ymgynghoriad a deunaw ymateb i ail ran yr ymgynghoriad.

Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Awdurdodau Lleol Cymru, y Sector Addysg Uwch yng Nghymru, y sector tai cymdeithasol, tân, cyrff llywodraethol gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y byd academaidd a'r sector preifat.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru

Rhan 1 yr Ymgynghoriad – Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhannwyd Rhan 1 yr ymgynghoriad yn gwestiynau gorfodol a chwestiynau dilynol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol lle'r oedd yr ymatebydd wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf â phob cwestiwn. Yn ogystal, roedd dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cafwyd deuddeg ymateb i'r rhan hon o'r ymgynghoriad.

1. Cwmpas Contractau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn a Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn Neilltuadwy

C1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod codau'r Eirfa Caffael Gyffredin a nodir yn yr offeryn statudol yn cyfleu'n gywir y gwasanaethau hynny y gellir eu cyflenwi drwy gontract cyffyrddiad ysgafn o dan y gyfundrefn newydd?

C1a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nodwch pa wasanaethau y dylid eu cynnwys neu eu heithrio, neu esboniwch unrhyw faterion ymddangosiadol eraill gyda'r rhestr, fel anghysondebau â rhannau eraill o'r Bil neu'r offeryn statudol.

Crynodeb o'r ymatebion

At ei gilydd, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gyda deg o'r deuddeg ymateb yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno ac wedi darparu rhai o godau'r Eirfa Caffael Gyffredin yr oedd yn dymuno eu hychwanegu at y ddeddfwriaeth.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn berthnasol i'w sefydliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae codau'r Eirfa Caffael Gyffredin sydd yn y ddeddfwriaeth ddrafft yn nodi'r un gwasanaethau â'r rheini a nodwyd yn nghodau'r Eirfa Gyffredin yn Atodlen 3 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Gan fod codau'r Eirfa Caffael Gyffredin y bwriedir eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ddrafft eisoes wedi'u cynnwys mewn cytundebau rhyngwladol, ni ellir ychwanegu'r codau newydd at y rhestr o Gontractau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn.

Ar y sail hon, ni fwriedir newid yr offeryn statudol.

C2. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr offeryn statudol yn cyfleu'n gywir y gwasanaethau hynny ddylai fod yn 'neilltuadwy' ar gyfer cwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus o dan y gyfundrefn newydd?

C2a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, nodwch pa wasanaethau y dylid eu cynnwys neu eu heithrio, neu esboniwch unrhyw faterion ymddangosiadol eraill gyda'r rhestr, fel anghysondebau â rhannau eraill o'r Bil neu'r offeryn statudol.

Crynodeb o'r ymatebion

O'r deuddeg ymateb, roedd wyth yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn. Nid oedd pedwar yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn. Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod y mwyafrif yn cytuno â'r cwestiwn, ni chynigir unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

2. Contractau Eempt: Cyfrifiadau ar gyfer Gweithgareddau Fertigol a Llorweddol

C3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo canrannau'r trothwyon gweithgaredd, a nodir yn yr offeryn statudol, yn glir ac yn bodloni bwriad y polisi i esemptio caffael llorweddol a fertigol o ofynion y Bil?

C3a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, esboniwch pam eich bod yn credu nad yw'r cyfrifiad yn glir neu nad yw'n bodloni bwriad y polisi fel arall.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd pob un o'r deuddeg ymateb a gafwyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo canrannau'r trothwyon gweithgaredd, a nodir yn yr offeryn statudol, yn glir ac yn bodloni bwriad y polisi i esemptio caffael llorweddol a fertigol o ofynion y Ddeddf. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan nad oedd yr un ymatebydd yn anghytuno nac yn anghytuno'n gryf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni fwriedir newid yr offeryn statudol.

3. Contractau Eempt: Cyfrifiadau Trosiant o Fewn Grŵp Cyfleustodau

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo canrannau'r prawf trosiant i bersonau ymgysylltiedig, fel y nodir yn yr offeryn statudol, yn glir ac yn bodloni bwriad y polisi i esemptio contractau i bersonau ymgysylltiedig fel y disgrifir yn Atodlen 2, paragraff 6?

4a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, esboniwch pam nad ydych chi'n credu y bydd y cyfrifiad yn cyflawni bwriad y polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd pump o'r deuddeg ymateb yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd un yn cytuno nac yn anghytuno a dywedodd chwech nad oedd yn berthnasol iddynt.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes bwriad i newid yr offeryn statudol.

4. Profion Trosiant a Chyflenwi o ran Cyfleustodau

C5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y fethodoleg i wneud y cyfrifiadau priodol ar gyfer yr esemptiadau perthnasol ym mharagraffau 1(2), 2(2) a 3(4) o Atodlen 4 yn glir ac yn bodloni bwriad y polisi i esemptio cyflenwi nwy, gwres, trydan a dŵr yfed pan fo'r amodau perthnasol yn gymwys?

C5a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, esboniwch pam eich bod yn credu nad yw'r cyfrifiad yn glir neu nad yw'n bodloni bwriad y polisi fel arall.

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda phump o'r deuddeg ymatebydd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' bod y fethodoleg yn glir ac yn bodloni bwriad y polisi i esemptio cyflenwi nwy, gwres, trydan a dŵr yfed pan fo'r amodau perthnasol yn gymwys. Roedd chwech o'r saith ymateb arall wedi ateb 'amherthnasol' ac nid oedd yr un a oedd yn weddill yn cytuno nac yn anghytuno.

Consensws cyffredinol y sefydliadau hynny a ymatebodd 'amherthnasol' neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' oedd oherwydd nad oedd y rheoliadau ar gyfer cyfleustodau yn berthnasol i'w sefydliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn i'r gwaith trawsffiniol â Lloegr allu parhau heb ddryswch na chostau uwch posibl i ddefnyddwyr, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru'n gyson â Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

Felly, nid oes bwriad i newid yr offeryn statudol.

5. Caffael o fewn y DU

C6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rheoliad yn bodloni bwriad y polisi o ganiatáu i awdurdodau datganoledig yn yr Alban gaffael ar y cyd neu gydweithio ag awdurdodau eraill ledled y DU o dan nawdd y Bil Caffael?

C6a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, esboniwch pam nad ydych chi'n meddwl y bydd y rheoliad yn rhoi'r cyfle hwn i awdurdodau datganoledig yn yr Alban.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd deg ymatebydd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na sgoriau negyddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Felly, nid oes bwriad i ddiwygio'r offeryn statudol ar hyn o bryd.

6. Diffiniadau o 'Awdurdod Llywodraeth Ganolog' a 'Gwaith' ar gyfer Trothwyon

C7. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y dull hwn yn cyflawni amcan y polisi o sicrhau dull clir, cyson a chyfarwydd o ddiffinio Awdurdodau Llywodraeth Ganolog a Gwaith?

Q7a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, esboniwch pam nad ydych chi'n credu bod y diffiniadau'n glir, yn gyson a/neu'n gyfarwydd.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd deg ymatebydd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r manylion. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un ymatebydd yn anghytuno.

Dim ond un sylw a dderbyniwyd ar gyfer y cwestiwn hwn, a oedd yn nodi nad yw'n glir a fydd y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a restrir yn Atodiad 1 yn cael eu diwygio i gynnwys pob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu dim ond y rheini a restrir (yn amodol ar newid enw).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae'n bwysig bod y rhestr yn adlewyrchu'r ymrwymadau rydym wedi'u gwneud o dan y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) a Chytundebau Rhyngwladol eraill. O'r herwydd, nid ydym yn gallu diwygio'r rhestr ar hyn o bryd.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

7. Datgymhwyso adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988

C8. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau lleol a chyrrff eraill sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 fanteisio ar bolisi ar neilltuo contractau sydd o dan y trothwy ar gyfer cyflenwyr mewn lleoliad daearyddol penodol ac (os yw'r awdurdod contractio'n dewis gwneud hynny) sy'n fusnesau bach a chanolig neu'n sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol?

C8a. Os ydych chi'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, esboniwch pam nad ydych chi'n meddwl y bydd y rheoliadau'n caniatáu i'r polisi o dan y trothwy gael ei ddefnyddio gan awdurdodau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llywodraeth Leol 1988.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Roedd tri o'r ymatebion wedi rhoi sgoriau cadarnhaol. Roedd pedwar ymateb yn negyddol ac yn darparu sylwadau gyda'r pum sefydliad arall naill ai'n ateb Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno neu Amherthnasol.

Sylwadau ac ymatebion Llywodraeth Cymru

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai'r Ddeddf Gaffael yn lleihau hyblygrwydd o ran cadw prosesau caffael o dan y trothwy i fusnesau bach a chanolig a/neu fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol. Nid felly y mae pethau. Bydd awdurdodau contractio yn dal yn gallu cadw prosesau caffael o dan y trothwy ar gyfer busnesau bach a chanolig a/neu fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol pan ddaw y Ddeddf Gaffael i rym, fel maent yn gallu ei wneud nawr.

Roedd gan ymatebwyr eraill bryderon ynghylch diffyg hyblygrwydd, gan fod yr OS a gynhwyswyd yn yr Ymgynghoriad yn cyfyngu'r gwahoddiadau i dendro i gyflenwyr mewn un sir yn unig. Yn y ddogfen ymgynghori, cynigiwyd gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer Cymru sy'n cyd-fynd â [WPPN 05/21](#). Bydd y gwahaniaeth a gynigir ar gyfer y ddeddfwriaeth Gymreig yn caniatáu i Awdurdodau Contractio Cymru neilltuo prosesau caffael o dan y trothwy i gyflenwyr o leoliad penodol cyn belled â bod y lleoliad yn cynnwys rhannau o ddim mwy na deg sir, boed hynny yng Nghymru neu ar draws Cymru a Lloegr. Er enghraifft, efallai y bydd Awdurdod Contractio yng Nghymru yn dewis gwahodd cyflenwyr yng Nghynghorau Dinas Caerdydd, Casnewydd a Bryste i dendro. Sylwch y dylai hyn bob amser gael ei nodi'n glir yn y dogfennau tendro.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut mae'r adran hon yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Gellir ystyried y meysydd deddfwriaeth eraill hyn, a dylid eu hystyried, ym mhob proses gaffael.

Caiff yr Offeryn Statudol a gafodd ei gynnwys gyda'r ymgynghoriad ei newid i adlewyrchu'r gwahaniaethau a ddisgrifir uchod.

8. Y Gymraeg

C9. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r Is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd wyth ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd un ymatebydd yn dymuno i'r Gymraeg gael ei chydabod fel iaith swyddogol gyda datganiad na fyddai'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hoffai hefyd weld darpariaethau dwyieithog yn cael eu targedu ac i'r ddeddfwriaeth adlewyrchu Safonau'r Gymraeg.

Roedd pump o'r wyth ymateb yn awgrymu mai un o effeithiau cadarnhaol y ddeddfwriaeth newydd fyddai'r gallu i gyhoeddi Hysbysiadau ar y Platfform Digidol Canolog (y Gwasanaeth Canfod Tendr (FTS) ar hyn o bryd) yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Argymhellodd dau ymatebydd y dylid gwella swyddogaeth y Ddogfen Caffael Sengl (SPD) pan ddefnyddir y Ddogfen Caffael Sengl ar gyfer un cyfle yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd yr holl sylwadau eraill a gafwyd naill ai'n gadarnhaol, yn cael eu hystyried fel sylwadau nad oeddent yn awgrymu newid i'r arferion presennol neu'n teimlo ei bod yn anodd gwneud sylwadau oherwydd natur dechnegol yr ymgynghoriad hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol eisoes yn bodoli mewn perthynas â'r Gymraeg, sy'n golygu nad oes angen eu dyblygu yn y Ddeddf Gaffael a'r offeryn statudol cysylltiedig. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau pwerau gwneud rheoliadau cyfatebol annibynnol yn y rhan fwyaf o feysydd y Ddeddf, sy'n golygu y bydd yr offeryn statudol hwn ac unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol yn cael eu dwyn gerbron y Senedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mewn ymateb i awgrymiadau ynghylch gwella swyddogaeth Gwasanaeth Canfod Tendr dwyieithog, rhagwelir y bydd modd rhoi'r Gymraeg a'r Saesneg ar un templed hysbysiad a fydd yn arwain at un hysbysiad, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac a gyhoeddir ar GwerthwchiGymru a'r Platfform Digidol Canolog.

Dylid nodi bod modd i hysbysiadau uwchlaw'r trothwy gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y Gwasanaeth Canfod Tendr nawr.

Argymhellwyd bod swyddogaeth ddwyieithog y Ddogfen Caffael Sengl yn cael ei gwella. Mae'r Ddogfen Caffael Sengl ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i'r defnyddiwr fewngofnodi i GwerthwchiGymru yn yr iaith ofynnol er mwyn creu / cadw ymatebion i'r Ddogfen Caffael Sengl. Mae'r Ddogfen Caffael Sengl yn ei chyfanrwydd yn cael ei hadolygu oherwydd y gofyniad i gyflenwyr ddarparu eu gwybodaeth ar y Platfform Digidol Canolog os ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn cyfle tendro (gweler Rheoliadau drafft 7-10 a gyhoeddwyd gydag Ymgynghoriad 2). Bydd sylwadau'r ymatebwyr ar y Ddogfen Caffael Sengl yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Ddogfen Caffael Sengl.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

C10. Eglurwch hefyd, sut rydych chi'n credu y gall manylion technegol arfaethedig y fersiwn ddrafft gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Cafwyd chwe ymateb i'r cwestiwn hwn.

Nododd un o'r ymatebwyr y gallai cyfyngu cyfleoedd i ardaloedd lleol gael effeithiau negyddol ar fusnes dwyieithog ac y dylid ei reoli.

Roedd yr holl sylwadau eraill a gafwyd naill ai'n gadarnhaol, yn cael eu hystyried fel sylwadau nad oeddent yn awgrymu newid i'r arferion presennol neu'n teimlo ei bod yn anodd gwneud sylwadau oherwydd natur dechnegol yr ymgynghoriad hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Rheoliad 17 o dan Ran 6 o'r offeryn statudol wedi'i ddylunio i ganiatáu i Awdurdodau Lleol a chyrff eraill sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 gadw contractau o dan y trothwy ar gyfer cyflenwyr mewn lleoliad daearyddol penodol, ac os ydynt yn dewis gwneud hynny, ar gyfer busnesau bach a chanolig neu fentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y bydd pob Awdurdod contractio yng Nghymru o dan y Rheoliadau newydd yn gallu manteisio ar y polisi ar gyfer contractau o dan y trothwy er mwyn rhoi hwb i gyflenwyr lleol a allai fod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

Rhan 2 yr Ymgynghoriad – Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhannwyd Rhan 2 yr ymgynghoriad yn gwestiynau gorfodol a chwestiynau dilynol, lle'r oeddem yn gofyn i ymatebwyr roi sylwadau lle'r oeddent wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf â'r cwestiwn blaenorol. Yn ogystal, roedd dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cafwyd deunaw ymateb i'r rhan hon o'r ymgynghoriad.

1. Hysbysiad Piblinell

C1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad piblinell, fel y'i disgrifir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhag-rybudd defnyddiol i gyflenwyr am gyfleoedd contractio sydd ar y gweill?

C2. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 1, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Cafwyd deunaw ymateb i'r cwestiwn.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf y byddai hysbysiad piblinell yn ddefnyddiol i roi gwybod ymlaen llaw i gyflenwyr am gyfleoedd sydd ar y gweill. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd pum ymatebydd yn anghytuno.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr (gan gynnwys y rheini a oedd wedi egluro eu hymatebion) yn cytuno'n gyffredinol y byddai'r hysbysiad piblinell yn ffordd briodol o roi rhag-rybudd i gyflenwyr am gyfleoedd sydd ar y gweill.

Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n egluro eu hymatebion ymhellach yn mynegi pryderon mewn perthynas â risgiau posibl o herio i awdurdodau contractio. Roedd y pryder yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o ymdrech ofer gan gyflenwyr wrth baratoi ar gyfer contract nad yw byth yn dwyn ffrwyth.

Codwyd rhai pryderon yn ymwneud â systemau, gan gynnwys pryderon yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddyblygu gyda hysbysiadau eraill. Codwyd ymholiadau technegol ychwanegol mewn perthynas â chontractau yn ôl y gofyn ac a oedd yr awdurdod contractio'n bwriadu rhannu'r cyfle yn lotiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod yr hysbysiad piblinell yn cynnwys gwybodaeth am gontract cyhoeddus y mae'r awdurdod contractio yn "bwriadu" cyhoeddi tendr neu hysbysiad tryloywder ar ei gyfer. Rhoddir sylw pellach i'r pwynt hwn yn y canllawiau.

Er mwyn lleihau'r effaith weinyddol ar awdurdodau contractio ac osgoi dyblygu diangen, rhagwelir y bydd unrhyw rwymedigaethau ychwanegol ar adnoddau sy'n deillio o'r newidiadau i ofynion tryloywder yn cael eu lliniaru i raddau helaeth gan awtomeiddio systemau a phlatfformau caffael yn well.

Mae angen yr Hysbysiad Piblinell ar gyfer contractau cyhoeddus yr amcangyfrifir bod iddynt werth o fwy na £2m, y mae awdurdodau contractau'n bwriadu cyhoeddi tendr neu hysbysiad tryloywder ar eu cyfer. Felly, gan nad oes angen tendr na hysbysiad tryloywder ar gyfer contractau yn ôl y gofyn, nid oes rheidrwydd cynnwys contractau yn ôl y gofyn o dan Fframweithiau. Fodd bynnag, byddai contractau yn ôl y gofyn o dan y Marchnadoedd Dynamig yn cael eu cynnwys yn yr hysbysiad piblinell os ydynt yn uwch na'r trothwyon perthnasol.

Er bod un ymatebydd wedi awgrymu y dylid cael rhai achosion lle dylid caniatáu esemptiad i'r Hysbysiad Piblinell, dim ond os bydd trothwyon penodol yn cael eu bodloni y mae'r Ddeddf yn gofyn am Hysbysiad Piblinell. Byddai unrhyw esemptiadau ychwanegol yn tanseilio bwriad y polisi, sef rhoi rhybudd ymlaen llaw i gyflenwyr am gyfleoedd contractio sydd ar y gweill.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

2. Hysbysiad Caffael wedi'i Gynllunio

C3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys yr hysbysiad sy'n cael ei ddisgrifio yn yr offeryn statudol drafft yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyflenwyr i benderfynu os oes ganddynt ddiddordeb ai peidio yn y cyfle caffael sy'n cael sylw yn yr hysbysiad?

C4. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 3, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar bymtheg o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd un ymatebydd yn anghytuno.

Roedd yr ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno o'r farn y dylid darparu rhagor o wybodaeth gyda'r wybodaeth am y broses gaffael arfaethedig ynghylch a yw'r awdurdod contractio'n bwriadu hysbysebu'r cyfle mewn lotiau.

Mynegodd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r offeryn statudol arfaethedig bryder ynghylch yr amserlenni y mae'r broses hon yn eu caniatáu os yw cyflenwyr wrthi'n mynd drwy broses ddilysu ISO.

Nododd un arall o'r ymatebion "cytuno" nad yw'n glir yn yr offeryn statudol a yw'r hysbysiad hwn yn ddewisol neu'n orfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gall awdurdodau gyhoeddi'r hysbysiau dewisol hyn hyd at 12 mis cyn cyhoeddi hysbysiad tendro a fydd yn rhoi mwy o amser i gyflenwyr sicrhau eu bod yn barod i dendro. Bwriad yr hysbysiad yw rhoi rhybudd ymlaen llaw i gyflenwyr a'r farchnad am dendr sydd ar y gweill er mwyn rhoi amser ychwanegol i gyflenwyr y farchnad baratoi, gan gynnwys eu galluogi i gwblhau unrhyw ardystiad, a chaniatáu i'r awdurdod contractio i gwblhau ei strategaeth gaffael yn derfynol. Mae'r hysbysiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio ddarparu "*datganiad yn egluro sut a phryd y gellir mynegi diddordeb yn y contract*". Gall awdurdodau ddefnyddio'r ymatebion i'r datganiadau o ddiddordeb i bennu a mireinio strategaethau caffael.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd y farchnad a chyflenwyr wedi cael hysbysiad pellach o'r bwriad o gaffael er mwyn paratoi, lle mae awdurdodau contractio wedi cyhoeddi hysbysiad piblinell.

Pan fydd awdurdodau'n dewis darparu gwybodaeth am lotiau arfaethedig, gellir darparu hyn yn yr wybodaeth a ddarperir o dan ran 11(3)(j) o'r offeryn statudol.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

3.Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad

C5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr hysbysiad fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn cyflawni'r bwriad polisi o annog awdurdodau contractio i ymgysylltu'n rhagarweiniol â'r farchnad (PME) mewn ffordd agored a thryloyw?

C6. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 5, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod yr offeryn statudol drafft yn cyflawni'r bwriad polisi o annog ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad mewn ffordd agored a thryloyw. Roedd un ymatebydd yn dweud nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn cytuno bod yr offeryn statudol drafft yn cyflawni'r bwriad polisi o annog ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad mewn ffordd agored a

thryloyw. Lle'r oedd ymatebwyr yn egluro eu hymatebion, roedd y pryderon a amlygwyd yn debyg i'r rhai a godwyd ynghylch yr hysbysiad Piblinell. Er enghraifft, codwyd pryderon ynghylch y risg o ddyblygu, heriau gweinyddol, a strategaethau lotiau. Rhoddwyd sylw i bob un o'r pryderon hyn yn yr ymateb i Gwestiwn 1 uchod.

Roedd pryder y gallai cyflenwr herio Awdurdod Contractio os defnyddir Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad i ddweud wrth y farchnad bod ymgysylltu o'r fath eisoes wedi digwydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Ddeddf yn caniatáu'n benodol i Awdurdodau Contractio ddweud wrth y farchnad bod ymgysylltu'n rhagarweiniol â'r farchnad wedi digwydd drwy'r Hysbysiad hwn. Nid oes gofyn yn y Ddeddf i ymgysylltu'n rhagarweiniol â'r farchnad mewn ffordd benodol na gyda nifer penodol o gyflenwyr ac ati. Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys disgrifiad o'r hyn yw ymgysylltu'n rhagarweiniol â'r farchnad, yn y canllaw.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

4.Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad - Cyfleustodau Preifat

C7. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai cyfleustodau preifat gael eu hesemptio o'r gofynion i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad yng nghymal 17 o'r Bil?

C8. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 7, eglurwch eich rhesymau.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr ymatebion yn ymestyn ar draws yr ystod gyfan o opsiynau sgorio, ac nid oedd y rhan fwyaf (saith) yn cytuno nac yn anghytuno, neu'n tybio nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Roedd pedwar ymatebydd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai cyfleustodau preifat gael eu hesemptio o'r gofynion i gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad.

O'r chwe ymateb a oedd yn weddill, roedd pump yn anghytuno ac roedd un arall yn anghytuno'n gryf.

Roedd pryderon ynghylch diffyg tryloywder a thriniaeth gyfartal o ganlyniad i esemptio cyfleustodau preifat o ofynion hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad, yn ogystal â phryderon y byddai'r dull hwn yn lleihau amlygrwydd cyfleoedd yn y dyfodol i'r farchnad gyflenwi.

Ar ben hynny, os nad yw cyfleustodau preifat a chyhoeddus yn cael eu trin yr un fath, mynegwyd pryderon bod risg y byddai dull dwy haen yn cael ei roi ar waith ar sail y model perchnogaeth yn hytrach na'r gweithgareddau go iawn. Dywedodd rhai

ymatebwyr nad oedd y gofynion yn ddigon beichus i eithrio cyfleustodau preifat o'r gofyniad hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae cyfleustodau preifat yn dod o dan y Ddeddf Gaffael i sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau masnach rhyngwladol, fel y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae cyfleustodau preifat yn dod o dan fframweithiau a rheoleiddwyr statudol cyfleustodau (fel OFGEM, OFWAT, ac ati). Maent hefyd yn atebol i'w bwrdd, i'w buddsoddwyr neu i'w cyfranddallwyr, a fydd yn sbarduno prosesau caffael effeithlon ac effeithiol.

Er mwyn sicrhau cysondeb a galluogi busnes trawsffiniol gyda Lloegr i barhau i raddau helaeth heb ddryswch na chostau ychwanegol posibl i ddefnyddwyr, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn parhau i gyd-fynd â Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

Felly, nid oes bwriad i newid yr offeryn statudol.

5.Hysbysiad Tandro

C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr hysbysiad tandro fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn galluogi awdurdod contractio i hysbysebu a chychwyn gweithdrefn gystadleuol yn effeithiol?

C10. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 9, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd dau ar bymtheg o'r deunaw ymateb yn cytuno â'r cwestiwn (tri ar ddeg yn cytuno a phedwar yn cytuno'n gryf) ac roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cwestiwn.

Gofynnwyd am eglurhad ar reoliad 13 is-baragraff 3 mewn perthynas ag amserlenni ac a oedd dyblygu mewn hysbysiadau.

Gofynnwyd am eglurhad hefyd ar gyfer Rheoliad 11. Yn Rheoliad 11 mae'r gallu i gyhoeddi Hysbysiad Caffael wedi'i Gynllunio a fyddai'n caniatáu lleihau amserlenni; gofynnwyd am eglurhad ynghylch beth oedd 13(3)(s)(iii) yn ei olygu yn y cyd-destun hwn.

Roedd y geiriad ar amserlenni ar gyfer awdurdodau contractio nad ydynt yn Asiantaethau Llywodraeth Ganolog yn Rheoliadau 54(3) a (4) hefyd yn cael ei ystyried yn ddryslud.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch pam y byddai angen hysbysiad tandro ar gyfer contractau yn ôl y gofyn a Marchnadoedd Dynamig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y meysydd i'w hegluro ac yn rhoi rhagor o fanylion am y meysydd hyn yn y canllawiau a'r hyfforddiant.

Mae ymchwiliadau pellach yn mynd rhagddynt ar Reoliad 11 a bydd diwygiadau priodol yn cael eu gwneud i'r Rheoliad os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

Mae'r gofyniad am hysbysiad tendro ar gyfer marchnadoedd dynamig yn ymwneud â rhwymedigaethau o dan rwymedigaethau rhyngwladol mewn cytundebau masnach ac felly ni ellir eu diwygio.

Mae tryloywder yn elfen allweddol o'r Ddeddf Gaffael newydd ac mae'r hysbysiad tendro yn darparu gwybodaeth am un agwedd ar y cylch caffael. Er mwyn lleihau'r baich ac osgoi dyblygu diangen, bydd system GwerthwchiGymru yn cael ei dylunio fel y bydd llawer o wybodaeth yn cael ei llenwi ymlaen llaw, lle bo hynny'n bosibl, yn hysbysiadau lle mae hysbysiad blaenorol, sy'n ymwneud â'r un broses caffael, wedi cael ei gyhoeddi.

Nid yw'n fwriad diwygio'r offeryn statudol ar hyn o bryd, ond mae hyn yn amodol ar ymchwiliad pellach i eiriad Rheoliad 11. Bydd rhanddeiliaid yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol.

6.Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau/Marchnad Ddynamig, gan gynnwys Hysbysiad Marchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys

C11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hysbysiad y Farchnad Ddynamig fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn caniatáu i awdurdod contractio greu marchnad ddynamig (gan gynnwys marchnad ddynamig cyfleustodau) ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus yn y dyfodol?

C12. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 11, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd pymtheg o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod hysbysiad y Farchnad Ddynamig yn caniatáu i awdurdod contractio greu marchnad ddynamig (gan gynnwys marchnad ddynamig cyfleustodau) ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus yn y dyfodol.

Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno.

Dyweddodd un ymatebydd nad oedd yn berthnasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod yr ymatebwyr yn cytuno'n aruthrol â'r cwestiwn, nid yw'n fwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

C13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hysbysiad y Farchnad Ddynamig Cyfleustodau Cymwys fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn caniatáu

i awdurdod contractio greu marchnad ddynamig cyfleustodau sydd yr un fath â system cymhwyso o dan y rheolau presennol?

C14. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 13, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd saith o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Nid oedd chwe ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno. Dywedodd pedwar o ymatebwyr nad oedd yn berthnasol.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno, ond nid oedd wedi esbonio ei bryderon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan nad oedd esboniad ynghylch pam roedd yr ymatebydd yn anghytuno a bod nifer sylweddol yn cytuno â'r cwestiwn, nid yw'n fwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

7.Hysbysiad Tryloywder

C15. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad tryloywder fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn rhoi amlygrwydd i brosesau caffael sydd ar y gweill a fydd yn cael eu dyfarnu drwy ddefnyddio'r weithdrefn dyfarnu'n uniongyrchol?

C16. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 15, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ac roedd saith ymatebydd yn anghytuno.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr a oedd yn egluro eu hymatebion yn cytuno bod yr Hysbysiad Tryloywder yn cynyddu tryloywder ac felly'n cyflawni bwriad y polisi. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi rhai pryderon.

Roedd pryderon y bydd yr Hysbysiad Tryloywder yn creu goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau i awdurdodau contractio nad ydynt o bosibl yn gallu eu cyhoeddi yn unol â gofynion y Rheoliadau a'r Ddeddf Gaffael. Roedd pryderon hefyd bod yr Hysbysiad Dyfarnu Contract (CAN) yn dyblygu swyddogaeth yr Hysbysiad Tryloywder, ac na ddylai fod angen yr Hysbysiad Dyfarnu Contract pan gyhoeddir Hysbysiad Tryloywder.

Roedd pryderon hefyd y bydd yr Hysbysiad Tryloywder yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cyflenwyr yn herio contractau a ddyfernir drwy ddyfarniad uniongyrchol neu y gallai ohirio dyfarnu contract sy'n ofynnol oherwydd argyfwng. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cael rhai achosion lle dylid caniatáu esemptiad i ofyniad yr Hysbysiad Tryloywder.

Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch adran 42 y Ddeddf “Dyfarnu’n uniongyrchol i ddiogelu bywyd, ac ati” o ran pa fath o gontractau y gellid eu pennu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Hysbysiad Tryloywder ar gyfer contractau uwchben trothwy yn unig. Ar ben hynny, nid yw'n ofynnol ar gyfer contractau cyhoeddus a ddyfernir heb gystadleuaeth o dan fframwaith os yw'r fframwaith eisoes yn darparu ar gyfer hyn. Bwriedir i'r hysbysiadau hyn gyflawni swyddogaethau gwahanol a byddant yn cynnwys gwybodaeth wahanol, felly ni chredir eu bod yn dyblygu.

Mae'r Ddeddf Gaffael yn caniatáu dyfarnu contractau'n uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau penodol cyfyngedig, a bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnwys cyfiawnhad dros ddyfarnu'n uniongyrchol yn eu Hysbysiad Tryloywder. Felly, dim ond os yw'n credu bod awdurdod contractio'n bwriadu dyfarnu contract yn uniongyrchol y tu allan i'r amgylchiadau penodol cyfyngedig hyn a nodir yn y Ddeddf Gaffael y dylai fod gan gyflenwr sail dros herio. Byddai unrhyw esemptiad yn tanseilio'r tryloywder cynyddol sy'n ymwneud â dyfarniadau uniongyrchol y mae'r hysbysiad hwn yn ceisio eu cyflawni.

Mae pryderon y gallai'r Hysbysiad Tryloywder arwain at oedi cyn dyfarnu contract sy'n ofynnol oherwydd argyfwng eisoes yn cael sylw yn y Ddeddf, sy'n nodi'r amgylchiadau lle gellir dyfarnu contract heb fod angen cyfnod segur mewn sefyllfaoedd brys.

Diben adran 42 yw sicrhau bod modd cynnal prosesau caffael yn ystod argyfwng (fel pandemig Covid-19) mor gyflym ac mor dryloyw â phosibl, hyd yn oed os oes modd rhagweld yr amgylchiadau sy'n arwain at y digwyddiad (a allai ddiystyru'r cyfiawnhad brys eithafol dros ddyfarnu'n uniongyrchol yn Atodlen 5).

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

8.Hysbysiad Terfynu Proses Caffael

C17. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys yr hysbysiad terfynu, fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhoi mwy o dryloywder am brosesau caffael nad ydynt wedi arwain at gontract?

C18. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 17, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar bymtheg o'r ymatebwyr yn cytuno a dau yn cytuno'n gryf. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn cwestiynu a fyddai'r hysbysiad hwn yn parhau i gael ei gynhyrchu'n awtomatig gan system GwerthwchiGymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodir uchod, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i addasu'r swyddogaethau yn Gwerthwchi Gymru er mwyn awtomeiddio'r broses cymaint â phosibl.

Gan fod pob ymatebydd yn cytuno, nid yw'n fwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol

9.Crynodeb o'r Aseidiadau

C19. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnwys y crynodeb o'r asesiad (ynghyd â darparu crynodeb o asesiad y cyflenwr llwyddiannus) yn rhoi digon o wybodaeth i gyflenwyr er mwyn iddynt allu deall yn rhesymol pam bod eu cynnig yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus, wrth leihau'r amser mae'n ei gymryd i awdurdodau contractio ddarparu'r wybodaeth hon?

C20. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 19, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Roedd un ar bymtheg o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn hwn. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn. Fodd bynnag, cyfeiriodd un ymatebydd at gynnwys copi wedi'i olygu o asesiad y cynigydd buddugol a'r effaith weinyddol ychwanegol ar yr awdurdod contractio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r crynodeb asesu newydd yn dileu'r rhwymedigaeth i wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng y ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus. Yn lle hynny, bydd y manteision yn amlwg drwy ddarllen crynodeb o asesiad y cyflenwr llwyddiannus ochr yn ochr â chrynodeb y cyflenwr aflwyddiannus. Mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chynhyrchu yn ystod y broses asesu a bydd yn golygu bod modd drafftio crynodebau unwaith yn unig gan leihau unrhyw effaith weinyddol, yn hytrach na diwygio gwybodaeth ar gyfer pob cyflenwr aflwyddiannus.

Felly, nid oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r offeryn statudol.

10.Hysbysiad Dyfarnu Contract

C21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad dyfarnu contract fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft yn gyfrwng addas i dynnu sylw'r farchnad at fwriad yr awdurdod contractio i ymrwymo i gontract cyhoeddus a chychwyn y cyfnod segur?

C22. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 21, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Nid oedd dau yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd pum ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Roedd cytundeb cyffredinol y byddai'r hysbysiad dyfarnu contract yn gyfrwng addas i dynnu sylw'r farchnad at fwriad yr awdurdod contractio i ymrwymo i gontract cyhoeddus a chychwyn y cyfnod segur. Pan oedd ymatebwyr yn egluro eu hymateb, tynnwyd sylw at rai pryderon mewn perthynas â'r heriau gweinyddol posibl sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r hysbysiad newydd hwn, y risg o ddyblygu gyda'r hysbysiad manylion contract a'r effaith bosibl ar gyflenwyr. Ar ben hynny, cododd ymatebwyr rai pryderon technegol ynghylch terminoleg.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y gyfundrefn hysbysiadau newydd sy'n cael ei chyflwyno gan y Ddeddf Gaffael yn gwella tryloywder yn sylweddol ar draws y cylch caffael cyfan. Ar y cyfan, mae ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno bod cynyddu tryloywder ym maes caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddatblygiad cadarnhaol.

Mae'r hysbysiad dyfarnu contract a'r hysbysiad manylion contract yn cynnwys gwahanol swyddogaethau a byddant yn cynnwys gwybodaeth wahanol. Hefyd, bydd cyhoeddi'r hysbysiad dyfarnu contract yn arwain at ddechrau'r cyfnod segur.

Mewn perthynas â phryderon ynghylch terminoleg a hefyd yr effaith ar gyflenwyr, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r pryderon hyn ymhellach gyda Llywodraeth y DU, ac felly efallai y bydd rhai diwygiadau wrth ddrafftio'r offeryn statudol.

C23. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod yn briodol i gyfleustodau preifat gyhoeddi fersiwn llai o'r hysbysiad dyfarnu contract ar gyfer contractau a ddyfernir o dan fframwaith?

C24. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 23, eglurwch eich rhesymau.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd tri ymatebydd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Nid oedd saith yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd pum ymatebydd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno. Dywedodd dau nad oedd yn berthnasol.

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon y byddai'r cyfleustodau preifat yn llai tryloyw o'u cymharu â'r sector cyhoeddus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth y DU yn ceisio lleihau'r baich ar fusnesau preifat, a byddai fersiwn llai o Hysbysiad Dyfarnu Contract yn cefnogi'r nod hwn. Mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn sicrhau cysondeb â Llywodraeth y DU yn y maes hwn. Felly, nid oes bwriad i newid yr offeryn statudol ar hyn o bryd.

11.Hysbysiad Manylion Contract

C25. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys yr Hysbysiad Manylion Contract, fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhoi'r lefel angenrheidiol o dryloywder am fodolaeth a sylwedd contractau llywodraeth?

C26. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 25, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno.

Roedd pryderon bod gofynion yr Hysbysiad Manylion Contract yn rhy fiwrocraidd ac y byddai'n dyblygu'r hyn sy'n ofynnol yn yr Hysbysiad Dyfarnu Contract.

Roedd pryderon y gallai cyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract ddefnyddio llawer o adnoddau, yn enwedig ar gyfer contractau o dan y trothwy ac mewn perthynas â'r gofyniad i gynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn nad oedd angen yr hysbysiad hwn ar gyfer contractau yn ôl y galw gan y byddai fframwaith eisoes wedi cael ei hysbysebu gan yr awdurdod contractio.

Roedd pryder y gallai nifer yr hysbysiadau achosi dryswch i gyflenwyr wrth ddod o hyd i gyfleoedd addas. Awgrymwyd hefyd y dylid cael rhai achosion lle dylid caniatáu esemptiad i ofyniad yr Hysbysiad Manylion Contract neu lle mae'r hysbysiad yn cael ei wneud yn wirfoddol.

Awgrymodd ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys yn yr Hysbysiad Manylion Contract a oedd y contract wedi cael ei ddyfarnu i ddarparu'r cyflogaeth gefnogol neu gwmni cydfuddiannol gwasanaeth cyhoeddus ac a oedd y contract wedi'i gadw o dan Adrannau 32 neu 33.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Codwyd pryderon tebyg mewn perthynas â'r Hysbysiad Dyfarnu Contract, ac rydym wedi rhoi sylw i hynny uchod.

Mae'r hysbysiad yn ofynnol ar gyfer contractau hysbysadwy o dan y trothwy yn ogystal â chontractau cyhoeddus er mwyn darparu'r lefel ofynnol o dryloywder ynghylch bodolaeth a sylwedd contractau'r llywodraeth. Bydd llawer o awdurdodau contractio wedi rhoi'r gofyniad hwn ar waith erbyn i'r ddeddfwriaeth Caffael newydd ddod i rym yn unol â [WPPN02/22](#).

Dim ond yn yr hysbysiad ar gyfer contractau cyhoeddus yr amcangyfrifir sydd â gwerth o fwy na £5m y mae'n ofynnol cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol. Ni waeth beth yw'r gwerth, nid oes angen cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer contractau cyhoeddus sy'n fframwaith, contract cyfleustodau a ddyfernir gan gyfleustod preifat, contract consesiwn, na chontract cyffyrddiad ysgafn. Ystyri'r bod hyn yn gymesur ar gyfer math a gwerth y contract.

Er mwyn osgoi dryswch ynghylch yr hysbysiadau sy'n cael eu cynhyrchu, mae gwybodaeth ar gael i Brynwyr a Chyflenwyr drwy ddilyn y ddolen ganlynol, sy'n egluro pwrpas pob hysbysiad fel bod modd nodi hysbysiadau sy'n ymwneud â chyfleoedd sydd ar y gweill yn glir: [Bil Caffael: Siart llif hysbysiadau | LLYW.CYMRU](#)

Bydd yr Hysbysiad Manylion Contract yn darparu tryloywder o ran defnyddio'r Fframwaith a'r Farchnad Ddynamig a bodolaeth a sylwedd contractau yn ôl y gofyn. Byddai unrhyw esemptiad neu wneud yr hysbysiad yn wirfoddol yn tansilio'r tryloywder cynyddol ynghylch bodolaeth a sylwedd contractau cyhoeddus y mae'r hysbysiad hwn yn ceisio eu cyflawni.

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y posibilrwydd o gynnwys a ddyfarnwyd y contract i ddarparu'r cyflogaeth gefnogol neu gwmni cydfuddiannol gwasanaeth cyhoeddus ac a oedd y contract wedi'i gadw'n ôl o dan Adran 32 neu 33 gyda Llywodraeth y DU i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig.

Yng ngoleuni'r ymatebion uchod, efallai y bydd rhai newidiadau i'r offeryn statudol.

12.Hysbysiad Cydymffurfedd Taliadau

C27. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr hysbysiad cydymffurfedd taliadau yn darparu'r tryloywder sydd ei angen i ddal y sector cyhoeddus i gyfrif am ei berfformiad wrth dalu cyflenwyr ar amser?

C28. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 27, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar bymtheg o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod yr ymatebwyr yn cytuno, nid oes unrhyw newid yn cael ei gynnig i'r offeryn statudol.

13.Hysbysiad Perfformiad Contract

C29. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr hysbysiad perfformiad contract yn rhoi digon o wybodaeth am berfformiad cyflenwr ar gontract?

C30. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 29, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd naw ymatebydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn, nid oedd pedwar ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd pump yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Pan oedd ymatebwyr yn egluro eu hymateb drwy Gwestiwn 30, tynnwyd sylw at rai pryderon mewn perthynas â'r heriau gweinyddol posibl, pam roedd angen cyhoeddi'r manylion, pa wybodaeth y dylid ei chynnwys/rhoi gwybod amdani, a ellid gwneud newidiadau a phryderon posibl ynghylch herio. Ar ben hynny, roedd sylwadau'n cwestiynu sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol a gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr hyn sy'n pennu achos difrifol o dorri amodau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae tryloywder yn golofn ganolog y mae'r Ddeddf Gaffael yn seiliedig arni, a bydd y darpariaethau yn y Ddeddf yn cynyddu tryloywder drwy gydol oes y broses caffael, gan gynnwys rheoli contractau a pherfformiad contractau.

Dylai rheoli'r berthynas rhwng contractau a chyflenwyr yn effeithiol helpu i liniaru yn erbyn y risgiau hyn o herio ac achosion o dorri rheolau difrifol. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn datblygu hyfforddiant ac arweiniad i helpu rhanddeiliaid i roi'r gyfundrefn gaffael newydd ar waith. Fel rhan o'r broses cyn gweithredu, dylai sefydliadau enwi unigolion perthnasol yn eu sefydliad a allai elwa o'r hyfforddiant a fydd ar gael.

Nid yw'n fwriad diwygio'r offeryn statudol.

C31. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr Hysbysiad Perfformiad Contract yn rhoi digon o wybodaeth am dor contract difrifol gan gyflenwr?

C32. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 31, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd un ar bymtheg o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn. Roedd un ymatebydd yn anghytuno ac roedd un yn anghytuno'n gryf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pan oedd ymatebwyr yn egluro eu hatebion i gwestiwn 31, roedd eu pryderon o natur debyg i'r rhai a godwyd mewn perthynas â chwestiwn 29. Gan fod yr ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan, nid oes bwriad i ddiwygio'r offeryn statudol yn y maes hwn.

14.Hysbysiad Newid Contract

C33. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnwys yr hysbysiad newid contract yn rhoi mwy o dryloywder o ran rheoli contractau'r llywodraeth yn briodol?

C34. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 33, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd pedwar ar ddeg o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n gryf ond nid oedd wedi egluro'r rhesymeg dros ei ymateb. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn berthnasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y bydd yr hysbysiad newid contract yn rhoi mwy o dryloywder o ran rheoli contractau'n briodol, ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Felly, nid oes bwriad newid yr offeryn statudol.

15.Hysbysiad Terfynu Contract

C35. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnwys yr hysbysiad terfynu contract, fel y'i nodir yn yr offeryn statudol drafft, yn rhoi mwy o eglurder a thryloywder ynghylch pa gontractau llywodraeth sy'n dal mewn grym?

C36. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 35, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb gan ymatebwyr yn gadarnhaol, gyda phymtheg o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Roedd un ymatebydd yn anghytuno ac roedd dau'n anghytuno'n gryf.

Dywedodd un ymatebydd y byddai'n fuddiol gwahaniaethu rhwng contract yn dod i ben yn naturiol a therfynu contract am resymau eraill, gan y gallai hyn arwain at oblygiadau pe bai contract yn cael ei derfynu. Awgrymodd ymatebydd arall fod rhybudd terfynu lle mae contract wedi dod i ben yn naturiol yn creu proses weinyddol ddiangen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Diben yr hysbysiad terfynu contract yw rhoi gwybod i randdeiliaid bod contract wedi cael ei therfynu a sicrhau bod y cofnodion data'n ddiweddar.

Bydd y rheswm dros derfynu contract yn rhan o'r meysydd hysbysiad, a bydd yr hysbysiadau terfynu contract yn gwahaniaethu rhwng contractau sydd wedi cael eu terfynu a'r rhai sydd wedi cael eu hystyng.

Ni fwriedir gwneud unrhyw newid i'r offeryn statudol.

16.Platform Digidol Canolog

C37. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod drafft yr offeryn statudol yn egluro sut bydd y plattform digidol canolog yn gweithio?

C38. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 37, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn gadarnhaol, roedd dau yn niwtral ac roedd tri yn anghytuno.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth gan gyflenwyr yn ystod y broses hon.

Mynegodd un ymatebydd bryder ynghylch yr effeithiau a'r baich o ran adnoddau ar unrhyw newid i arferion gweithio newydd. Yn yr un modd, cododd ymatebydd arall bryder ynghylch yr heriau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau hyn.

Mynegodd un ymatebydd arall bryderon hefyd nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei darparu am weithrediad y system er mwyn iddynt allu ateb y cwestiwn hwn yn hyderus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Un o brif swyddogaethau'r plattform digidol canolog yw cael gwybodaeth gan gyflenwyr. Mae rhagor o fanylion am yr wybodaeth y gofynnir amdani gan gyflenwyr ar gael yn Rheoliadau 7 i 10 yr offeryn statudol.

Codwyd pryderon ynghylch yr effeithiau a'r heriau o ran adnoddau mewn ymateb i gwestiynau blaenorol, ac mae'r rhain wedi cael sylw manwl o'r blaen. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n galed i leihau unrhyw effeithiau pontio a byddwn yn ymgysylltu â'r rheini yr effeithir arnynt i helpu i liniaru unrhyw darfu.

Bydd rhagor o wybodaeth am ddatblygu systemau a gwaith pontio yn cael ei darparu maes o law. Darperir dysgu a datblygu cysylltiedig ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt wrth i'r gwaith gweithredu fynd rhagddo, a bydd cefnogaeth briodol ar gael i helpu gyda'r newid.

Ar sail yr adborth a ddaeth i law, ni fwriedir diwygio'r offeryn statudol.

C39. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y weithdrefn amgen yn rhoi dewis arall ymarferol petai'r plattform digidol canolog yn methu?

C40. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 39, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd saith ymatebydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd wyth yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd tri yn anghytuno.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn amgen. Ychwanegodd un ymatebydd ei fod yn poeni y gallai'r weithdrefn amgen ofyn am lawer o adnoddau

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu mewn canllawiau maes o law. Y bwriad yw y bydd GwerthwchiGymru yn gweithredu fel plattform amgen i ganiatáu cyhoeddi

hysbysiadau mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r platfform canolog ar gael. Y bwriad yw y bydd y broses hon yn cael ei hawtomeiddio cyn belled ag y bo modd.

Felly nid oes bwriad gwneud newidiadau i'r offeryn statudol.

17. Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr

C41. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd yr wybodaeth y mae'r offeryn statudol drafft yn mynnu y bydd yn rhaid ei chael drwy'r platfform digidol canolog yn arbed amser ailgyflwyno a dyblygu gan gyflenwyr sy'n cynnig am fwy nag un contract gan y llywodraeth?

C42. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 41, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Roedd pymtheg o'r ymatebwyr yn gadarnhaol, nid oedd un yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd dau yn anghytuno.

Mynegodd un ymatebydd bryder ynghylch lefel yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y system cymwysterau a gwybodaeth y cyflenwr a holodd beth oedd yn digwydd gyda'r Ddogfen Gaffael Sengl (SPD).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r SPD yn ei chyfanwydd yn cael ei hadolygu oherwydd effaith y Ddeddf Gaffael ynghylch y ffordd y mae'n ofynnol i gyflenwyr ddarparu eu gwybodaeth ar y Platfform Digidol Canolog os ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn cyfle tendro. Bydd sylwadau'r ymatebwyr ar y pwnc hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Ddogfen Caffael Sengl.

Bydd rhagor o wybodaeth am y broses hon yn cael ei darparu mewn canllawiau ychwanegol a bydd prosesau dysgu a datblygu yn cael eu cyflwyno i gefnogi'r gwaith o ddiwygio caffael.

C43. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid gwneud defnyddio'r Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr yn orfodol yn ystod y cyfnod tendro, a dim ond gwybodaeth graidd am gyflenwyr cofrestredig a gyflwynir i'r platfform y dylai awdurdodau contractau ei defnyddio cyn diwedd y cyfnod tendro?

C44. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 43, eglurwch eich rhesymau.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Roedd tri ar ddeg o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd un ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd pedwar yn anghytuno.

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn siŵr sut byddai'r Platfform Digidol Canolog: Gwybodaeth am Gyflenwyr yn gweithio'n ymarferol, a holodd ymatebwyr eraill a fyddai awdurdodau'n dal yn gallu gofyn cwestiynau ychwanegol.

Holodd ymatebwyr eraill am yr effaith bosibl ar gyflenwyr a sut bydd y system yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a chywir yn cael ei chyflwyno

Ymateb Llywodraeth Cymru

Dim ond os bydd rhywbeth wedi newid rhwng cyflwyniadau y bydd angen i gyflenwyr ddiweddarau gwybodaeth yn y system cofrestru cyflenwyr a gofynnir iddynt gadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir adeg cyflwyno. Pan fydd rhywbeth yn newid yn ystod y tendr, bydd gofyn i gyflenwyr dynnu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n ôl a'i hailgyflwyno.

Ar sail yr ymateb a ddaeth i law, nid oes bwriad newid yr offeryn statudol.

18.Codau Adnabod Unigryw

C45. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y darpariaethau ar godau adnabod unigryw yn golygu bod modd olrhain data caffael?

C46. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 45, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag un ar bymtheg o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno. Roedd un ymatebydd yn anghytuno gan ei fod yn teimlo bod angen i'r geiriad ganolbwyntio mwy ar sicrhau bod codau adnabod unigryw yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafwyd cefnogaeth aruthrol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae prosesau'n cael eu dylunio i sicrhau bod defnyddwyr yn cofrestru yn y ffordd gywir ac yn cael cod adnabod unigryw. Ategir hyn gan ganllawiau priodol, a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau hyn.

Ar sail yr adborth a dderbyniwyd, ni fwriedir diwygio'r offeryn statudol.

19.Darpariaethau Pontio

C47. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu ar gyfer y trefniadau pontio a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

C48. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 47, eglurwch eich rhesymau.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd dau ar bymtheg o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn. Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n gryf â'r dull gweithredu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n aruthrol fod y dull gweithredu ar gyfer y trefniadau pontio yn briodol, ac felly nid oes bwriad gwneud unrhyw newid i'r offeryn statudol.

20.Contractau o dan y trothwy (Cymru yn unig)

C49. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gwelliant i'r symiau trothwy i'w defnyddio gyda chontractau o dan y trothwy ar gyfer Awdurdodau Llywodraeth Ganolog?

C50. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 49, eglurwch eich rhesymau.

Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd dau ar bymtheg o ymatebion i Gwestiwn 49. Roedd saith ymatebydd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r manylion, gyda dau yn cytuno'n gryf a phump yn cytuno. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd un ymatebydd nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol. Roedd saith ymatebydd yn anghytuno â'r cwestiwn gyda phump yn anghytuno a dau yn anghytuno'n gryf.

Roedd sylwadau'r ymatebwyr drwy Gwestiwn 50 yn cytuno â'r newidiadau i'r trothwyon ar y cyfan. Ond, roeddent yn tynnu sylw at bryderon ynghylch pam roedd y trothwyon yn wahanol i Awdurdodau Llywodraeth Ganolog ac i Sefydliadau Is-Ganolog, gyda rhai yn dweud bod y trothwyon yn rhy isel.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried nifer o opsiynau er mwyn sefydlu'r gwerthoedd mwyaf priodol ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy ar sail y pryderon a fynegwyd o'r blaen gan randdeiliaid o Gymru, argaeledd gwybodaeth berthnasol a'r adborth yn dilyn y gwelliannau a gynigiwyd ac a ddisgrifiwyd yn yr ymgynghoriad.

Bydd newid y trothwyon ariannol isaf fel y'i nodwyd yn yr ymgynghoriad yn sicrhau'r cydbwysedd mwyaf effeithiol a phriodol rhwng y baich gweinyddol posibl y byddai'n ei greu ar gyfer Awdurdodau Llywodraeth Ganolog llai a'r manteision a ddaw. Mae nifer o resymau am hyn, gan gynnwys:

- O fod yn fwy tryloyw mewn perthynas â chontractau is eu gwerth, bydd mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig geisio amdanynt.
- Bydd bod yn fwy tryloyw yn cynhyrchu mwy o wybodaeth at ddibenion adrodd.
- Bernir ei bod yn bwysig bod trothwyon gwahanol ar gyfer awdurdodau llywodraeth ganolog ac awdurdodau is-ganolog oherwydd, pe bai'r trothwyon i gyd yr un peth, gallai hynny trwy ddamwain greu dryswch o ran trothwyon eraill.

Caiff y trothwyon felly eu cadw fel yr oeddynt ar ôl eu newid gan Lywodraeth Cymru (£24,000 gan gynnwys TAW i awdurdodau llywodraeth ganolog) a bydd offeryn statudol Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu hynny.

Yn y dyfodol, a chan ddibynnu a fydd data ategol perthnasol a dibynadwy ar gael, gallai Gweinidogion Cymru ystyried priodoldeb defnyddio'u pwerau i wneud

rheoliadau yn y maes hwn er mwyn newid y trothwyon ariannol os mai hynny fyddai orau i Gymru a'r gymuned caffael cyhoeddus yng Nghymru.

C51. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd mynnu bod cyflenwyr yn cofrestru ar System Cofrestru Cyflenwyr y Platfform Canolog ar gyfer tendrau hysbysadwy o dan y trothwy yn gwella tryloywder, cysondeb data a'r data masnachol sydd ar gael?

C52. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 51, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni'r bwriad polisi.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Derbyniwyd pedwar ar ddeg ymateb cadarnhaol, nid oedd tri yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un yn anghytuno.

Nododd un ymatebydd fod angen atgyfnerthu hyn mewn newidiadau i systemau ac ymddygiad. Nododd ymatebydd arall y gallai hyn effeithio ar allu busnesau bach a chanolig i wneud cais am gyfleoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r newidiadau gofynnol yn cael eu cynnwys yn nyluniad y systemau a byddant yn cael eu hegluro mewn canllawiau i sicrhau bod prosesau'n cael eu dylunio mewn ffordd sy'n sicrhau cydymffurfriad.

Mae effeithiau posibl mynnu cofrestru ar gyfer tendrau hysbysadwy sydd o dan y trothwy a chaffaeliadau a gwmpesir wedi cael eu hadolygu'n fanwl ac, ar y cyfan, ystyriwyd y byddai'r newid hwn yn cefnogi busnesau bach a chanolig drwy sicrhau eu bod yn cael eu cofrestru i weld cyfleoedd yn y dyfodol ac arbed amser iddynt wrth ailgyflwyno gwybodaeth mewn ceisiadau yn y dyfodol.

Felly, nid oes bwriad newid yr offeryn statudol.

C53. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn rhaid i awdurdodau contractio gasglu gwybodaeth sylfaenol am gyflenwyr dim ond drwy System Cofrestru Cyflenwyr y Platfform Canolog?

C54. Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 53, eglurwch eich rhesymau.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, nid oedd un yn cytuno nac yn anghytuno, roedd tri ymatebydd yn anghytuno, ac roedd un yn anghytuno'n gryf.

Dywedodd un ymatebydd ei fod angen eglurder ynghylch yr hyn sydd ar y gweill ar gyfer y Ddogfen Caffael Sengl yng Nghymru cyn gallu ymateb. Cyfeiriodd un arall o'r ymatebwyr at bryder ynghylch penodi arbenigwyr pwnc nad ydynt yn "masnachu fel cyflenwyr yn yr ystyr arferol".

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y nodir uchod, mae'r Ddogfen Caffael Sengl yn cael ei hadolygu a bydd sylwadau'r ymatebydd ar y pwnc hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ei hangen ar gyflenwyr i gofrestru am y tro cyntaf a chael gafael ar gyfleoedd, a phan nad oes gan gyflenwyr rif elusen neu rif Tŷ'r Cwmnïau yn barod, bydd dynodwr unigryw yn cael ei ddyrannu iddynt. Rydym yn sicrhau bod y prosesau a'r systemau wedi'u dylunio i effeithio cyn lleied â phosibl ar gyflenwyr.

Nid oes bwriad newid yr offeryn statudol.

21.Y Gymraeg

Mae'r cwestiynau canlynol yn ailadrodd cwestiynau a gafodd eu cynnwys yn Rhan 1 yr ymgynghoriad.

C55. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r Is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Crynodeb o'r ymatebion

Ni roddodd chwech o ymatebwyr unrhyw sylwadau neu nid oedd ganddynt farn gref ar y mater.

Awgrymodd dau ymatebydd y gallai'r gallu i gyfyngu ar gyfleoedd fesul rhanbarth gael effaith gadarnhaol ar gynyddu nifer y cyflenwyr sy'n siarad Cymraeg. Nodwyd hefyd bod rhaid rheoli hyn yn dda.

Roedd dau ymatebydd yn dymuno i ofynion ynghylch y Gymraeg gael eu cynnwys yn y Rheoliadau.

Awgrymodd dau ymatebydd mai un o effeithiau cadarnhaol y ddeddfwriaeth newydd fyddai'r gallu i gyhoeddi Hysbysiadau ar y Platfform Digidol Canolog (y Gwasanaeth Canfod Tendr ar hyn o bryd) yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, gan argymhell y dylid gwella swyddogaeth y Ddogfen Caffael Sengl pan ddefnyddir y ddogfen ar gyfer un cyfle yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Nododd un ymatebydd y gallai fod gofynion hyfforddi yn y Gymraeg ar gyfer Prynwyr a Chyflenwyr.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg a bod mwy o gydnabyddiaeth i'r Gymraeg.

Dywedodd un neu ddau o'r ymatebwyr y dylai popeth fod yn Gymraeg ac y dylai gwerthuswyr fod yn ddwyieithog.

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau cadarnhaol fod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Croesawyd symud o'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT) i'r Tendr Mwyaf Manteisiol (MAT) ac mae'r Gymraeg bellach yn cael ei chydhabod.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd yr adborth a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn weddol gyson â'r ymatebion a gafwyd i Ran 1 yr ymgynghoriad.

Dywedodd ymatebwyr fod angen rheoli'r gallu i gyfyngu cyfleoedd i ardaloedd lleol yn Rhan 1 a 2 yr ymgynghoriad. Felly darllenwch ein hymateb i Ran 1, Cwestiwn 10.

Wrth ymateb i Ran 1 a Rhan 2 yr ymgynghoriad, soniodd ymatebwyr am yr angen i ddeddfwriaeth adlewyrchu Safonau'r Gymraeg ac i'r Gymraeg gael ei chynnwys yn y Rheoliadau. Felly, darllenwch ein hymateb i Ran 1, Cwestiwn 9 uchod. Er mwyn cefnogi rhanddeiliaid sy'n gweithredu o fewn y gyfundrefn newydd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn Dysgu a Datblygu dwyieithog atodol ar gyfer y ddeddfwriaeth Caffael newydd, yn benodol ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru.

Dywedodd ymatebwyr fod angen gwella'r swyddogaeth ddwyieithog ar gyfer y Gwasanaeth Canfod Tendr yn Rhan 1 a 2 yr ymgynghoriad. Felly darllenwch ein hymateb i Ran 1, Cwestiwn 9 uchod.

Gwnaeth ymatebwyr sylwadau ynghylch swyddogaeth y Rhaglen Caffael Sengl yn Rhan 1 a 2 yr ymgynghoriad. Felly darllenwch ein hymateb i Ran 1, Cwestiwn 9 uchod.

Mewn ymateb i'r sylwadau am bopeth yn Gymraeg a gwerthuswyr yn ddwyieithog, bydd angen i bob awdurdod contractio benderfynu ar y ffordd orau o fwrw ymlaen ag unrhyw gyfle tendro yn unol â'u rhwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg.

Nid oes angen newid yr offeryn statudol.

C56. Eglurwch hefyd, sut rydych chi'n credu y gall manylion technegol arfaethedig y fersiwn ddrafft gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r niferoedd a'r sgoriau

Cafwyd dau ar bymtheg o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd un ymatebydd yn dymuno i'r Rheoliadau annog Awdurdodau Contractio i gyhoeddi pecynnau tendro dwyieithog.

Roedd un ymatebydd yn dymuno i'r Rheoliadau fod yn ddwyieithog ac i'r Gymraeg gael ei chefnogi.

Awgrymodd tri ymatebydd mai un o effeithiau cadarnhaol y ddeddfwriaeth newydd fyddai'r gallu i gyhoeddi Hysbysiadau ar GwerthwchiGymru a'r Plattform Digidol

Canolog (y Gwasanaeth Canfod Tendr ar hyn o bryd) yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Awgrymodd un y dylid gwella swyddogaeth y Ddogfen Caffael Sengl pan ddefnyddir y ddogfen ar gyfer un cyfle yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd un ymatebydd yn dymuno rhoi rhwymedigaeth ar gyflenwyr o ran cydymffurfio â'r Gymraeg.

Dyweddodd un ymatebydd fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal eisoës.

Ni roddodd naw o ymatebwyr unrhyw sylwadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, cododd ymatebwyr bwyntiau tebyg i'r rhai a godwyd yng nghyswllt Cwestiwn 55 uchod.

Mae rhwymedigaethau deddfwriaethol ac arferion gorau eisoës yn bodoli o ran y Gymraeg. Er mwyn cefnogi rhanddeiliaid sy'n gweithredu o fewn y gyfundrefn newydd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn Dysgu a Datblygu dwyieithog atodol ar gyfer y ddeddfwriaeth Caffael newydd, yn benodol ar gyfer awdurdodau contractio Cymru.

Mewn ymateb i'r dymuniad i roi rhwymedigaeth ar gyflenwyr yn y Rheoliadau o ran cydymffurfio â'r Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai awdurdodau contractio ystyried unrhyw ofynion o'r fath fesul achos, a'u hystyried fel rhan o'u strategaeth gaffael.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen newid yr offeryn statudol.